

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Glan Clwyd: Uned Ablett: BIP
Betsi Cadwaladr**

6 – 8 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau.....	8
	Safonau Craidd.....	8
	Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl	20
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	21
6.	Y Camau Nesaf.....	22
	Atodiad A	23

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch-staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Ceir pedair ward ar Uned Ablett (yr Uned), ac mae mewn gwahanol adeilad ar safle Glan Clwyd, wedi'i lleoli yn ardal wledig Bodelwyddan, pedair milltir i'r de o'r Rhyl. Ward ailsefydlu ar glo i oedolion yw Cynnydd, ac mae ganddi wyth gwely. Ward 20 gwely yw Dinas, wedi'i rhannu'n rhan i ddynion (deg gwely) a'n rhan i fenywod (deg gwely). Ward deg gwely i bobl hŷn yw Tegid. Y bedwaredd ward, Tawelfan, sydd ar gau ar hyn o bryd, yw ward 17 gwely i bobl hŷn.

4. Crynodeb

Hwn oedd ein hail ymweliad ag Uned Ablett (ac eithrio ymweliadau Deddf Iechyd Meddwl penodol), ac rydym yn gwerthfawrogi ei fod yn amser anodd i staff, cleifion a pherthnasau yn dilyn adroddiadau a sylw diweddar yn y wasg. Fodd bynnag, gwelsom agwedd ofalgar a pherthynas dda rhwng staff a chleifion trwy gydol yr ymweliad.

Cynhaliwyd ein harolygiad ar draws tair ward, a chanfuwyd lle sylweddol i wella gennym, ond roeddem hefyd yn falch o adlewyrchu rhai canfyddiadau cadarnhaol – yn benodol, y ffordd gadarnhaol y croesawyd y broses arolygu gan y staff, a oedd yn rhoi o'u hamser i siarad a darparu gwybodaeth i AGIC.

Yn dilyn ein harolygiad, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd yn gofyn am sicrwydd ar gamau a gymerwyd neu a fydd yn cael eu cymryd i liniaru nifer o feysydd yr oedd gan AGIC bryderon amdanynt.

Un o'r pryderon hyn oedd y niferoedd staff annigonol a oedd yn amlwg ar wardiau Tegid a Dinas yn bennaf. Nododd ein hadolygiad o rotas staff ac arsylwadau ar y wardiau hyn, yn ogystal â'r arsylwadau a'r derbyniadau yr oedd y staff yn rhan ohonynt ar gyfer ystafelloedd Adran 136, nad oedd niferoedd staff yn ddigonol. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi camau'n gysylltiedig â'r maes hwn yn dilyn ein llythyr sicrwydd ar unwaith, a gwnaed trefniadau i alluogi rheolwyr y wardiau i gynnig eu dyfarniadau proffesiynol ar gyfer uwchgyfeirio i'r metronau i alluogi niferoedd staffio i gynyddu y tu hwnt i'r templed staffio i ddiwallu anghenion aciwtedd y cleifion.

Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd ers ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014, ceir problemau amgylcheddol sylweddol ar yr Uned o hyd, yn enwedig ar ward Tegid. Rhestrir y manau sydd angen sylw o dan adran Amgylchedd yr adroddiad hwn, ac rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi strategaethau ar waith i sicrhau AGIC y gellir diwallu anghenion urddas a gofal hanfodol cleifion. Yn fwy hirdymor, mae'n rhaid mynd i'r afael ag addasrwydd yr amgylchedd hwn ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd pwysau sylweddol ar welyau cleifion mewnol, ac roedd capasiti'r wardiau'n 100% yn ystod ein hymweliad. O ganlyniad, os bydd angen gwely cleifion mewnol ysbyty ar unigolyn, caiff cleifion presennol eu symud o gwmpas wardiau'n rheolaidd, a bu adegau pan oedd cleifion wedi bod ar seibiant o'r ward ac y defnyddiwyd eu gwelyau ar gyfer derbyniadau newydd. Pe bai angen i'r claf ddychwelyd i'r ysbyty, nid oedd gwely ar gael iddo bob amser. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi camau ar waith i adolygu'r broblem hon.

Mae angen datblygu prosesau archwilio a llywodraethu gan fod archwiliad diweddar a gynhaliwyd ar ward Tegid wedi methu â chydnabod y problemau amgylcheddol sylweddol ar y ward. Mae'r bwrdd iechyd wedi cydnabod hyn ac wedi dechrau datblygu prosesau archwilio a llywodraethu cadarn er mwyn nodi problemau a chymryd camau priodol.

Roedd y bwyd a oedd yn cael ei weini i gleifion ar adeg ein hymweliad ar gylch o wythnos, a oedd yn ailadroddus i'r cleifion.

Roeddem yn falch o nodi gwelliannau i'r system sy'n casglu ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol, a oedd yn cynnwys cofnod ar gyfer pan fydd disgwyl i staff dderbyn hyfforddiant penodol. Fodd bynnag, roedd gan rai meysydd gyfraddau cwblhau gwael, ac roeddent yn 0% ar adeg ein hymweliad. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi nifer o fentrau ar waith i sicrhau bod presenoldeb staff mewn hyfforddiant yn gwella ac yn cael ei fonitro'n agos i ddarparu gofal cymwys i gleifion.

Roeddem yn falch o nodi bod seicolegydd wedi'i benodi ar gyfer wardiau Tegid a Dinas ers ein hymweliad blaenorol. Hefyd, roedd recriwtio cydgysylltydd gweithgareddau wedi gwella'r gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer cleifion ar wardiau Tegid a Dinas.

Mae ward Cynnydd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a gweithgareddau i'r cleifion, ac roedd staff a chleifion wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau y gellid defnyddio'r ward a'i gerddi, eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn briodol i'r grŵp cleifion.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y wardiau

Mae Uned Ablett yn adeilad ar wahân wedi'i leoli ar dir Ysbyty Glan Clwyd. Adeilad un llawr yw'r Uned, ac rydych chi'n cyrraedd y dderbynfa ar ôl i chi fynd i mewn i'r uned. Mae nifer o ystafelloedd wedi'u lleoli oddi ar y dderbynfa gan gynnwys swyddfeydd staff, ystafell therapi electrogynhyrfol, a mynediad at y wardiau.

Mae coridor hir yn arwain i'r holl wardiau yn Uned Ablett. Ceir nifer o ystafelloedd ar y coridor, gan gynnwys ystafell celf a chreffft ac ystafell fwyta, a ddefnyddir gan gleifion o ward Dinas. Arddangosir rhywfaint o waith celf ar y waliau yn ogystal â hysbysfyrddau'n dangos gwybodaeth i gleifion.

Yn gyffredinol, roedd ward Tegid yn amgylchedd anaddas i ddiwallu anghenion llawn pobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl gweithredol. Roedd problemau o ran gweithrediad ac addurn y ward, a oedd yn wael, yn ddiflas, ddim yn ysbrydoli, nac yn ddeniadol. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud ers ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014, roedd llawer o broblemau o hyd.

Roedd y ward yn darparu deg gwely ar gyfer y grŵp cleifion ac wedi'i rhannu'n goridorau dynion a menywod. O dro i dro, fe'n hysbyswyd y gellid rhoi cleifion gwrywaidd mewn gwelyau yn y rhan i fenywod gan nad oedd gwely ar gael yn y rhan i ddynion. Roedd tair ystafell wely unigol â sinc ymolchi ym mhob un yn y rhan i ddynion. Roedd un toiled a oedd wedi'i leoli mewn ystafell ymolchi â baddon statig. Yn dilyn ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014, nodwyd bod y baddon sefydlog yn dal i fod yn anhygyrch os oes angen teclyn codi ar glaf i ddefnyddio'r baddon, ac mae'r cynllun gweithredu o 2014 yn cadarnhau nad oedd y broblem hon wedi'i datrys o hyd.

Ceir saith gwely yn y rhan i fenywod: pum ystafell wely unigol a sinc ymolchi ym mhob un ac un ystafell a rennir (dau wely a sinc ymolchi a rennir). Roedd gwely, cadair a chwpwrdd erchwyn ym mhob un o'r ystafelloedd. Roedd yr ystafelloedd gwely'n ymddangos yn wag a phrin iawn yr oeddent wedi'u personoli. Ceir dau doiled ar y coridor i fenywod: un toiled unigol a sinc ymolchi ac un lle'r oedd cawod/ystafell wlyb hefyd. Roedd papur toiled wedi ei adael ar y llawr yn y toiled unigol yn ystod ein hymweliad fin nos/dros nos.

Symudwyd hwn gan staff pan ofynnwyd pam roedd y papur ar y llawr. Hefyd, fe'n hysbyswyd bod y diffyg cyfleusterau cawod/baddon yn creu anawsterau i gleifion a staff, yn enwedig pan oedd mwy nag un claf eisiau cael cawod ar yr un pryd. Roedd dau doiled hefyd yn anhygyrch pan oedd cleifion yn defnyddio cyfleusterau cawod neu faddon.

Cynigir cadeiriau, teledu a byrddau coffi i'r cleifion mewn lolfa. Mae'r lolfa'n fach ac nid oes digon o le i gleifion roi diodydd poeth ar y byrddau pan fyddant yn eistedd yno. Gan mai dim ond un set deledu oedd yno, fe'n hysbyswyd bod hyn wedi achosi anghydfod rhwng cleifion. Gall cleifion o ward Dinas weld y lolfa pan fyddant yn defnyddio'r ardd. Mae'r ystafell fwyta yn le bach, clos, ac nid yw'n cynnig digon o le i gleifion â symudedd gwael neu ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd y cadeiriau bwyta wedi gwisgo ac yn fudr. O'r ystafell fwyta, mae drysau patio yn agor allan i batio palmantog/gardd. Nid oedd y man yn yr awyr agored wedi gwella ers ein hymweliad ym mis Mehefin 2014, er i'r bwrdd iechyd ymrwmo yn ei gynllun gweithredu i recriwtio cynorthwywyr cynnal a chadw. Ceir dwy fainc bicnic bren a oedd yn ymddangos yn anaddas i bobl hŷn eu defnyddio. Roedd yr ardd yn anniben ac nid oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, a gallai llwyni drain agored fod yn beryglus i'r grŵp cleifion.

Ceir cegin ar ward Tegid sy'n gul ac yn glos pan fo mwy nag un person ynddi. Nid yw'r amgylchedd hwn yn hwylus i gleifion allu wneud eu diodydd eu hunain oherwydd y lle.

Nid yw'r ward yn cynnig unrhyw le ar gyfer cynnal trafodaethau gyda chleifion a/neu berthnasau. Fe'n hysbyswyd bod ystafelloedd gwely'r cleifion wedi cael eu defnyddio gan y staff i drafod gwybodaeth bersonol gyda chleifion a/neu eu perthnasau. Mae'r coridorau'n gul ac yn achosi anhawster sylweddol i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Nid oedd yr ystafell rhoi cyffuriau yn briodol i gyflawni ymyriadau nyrsio, ac nid oes sinc golchi dwylo yn yr ystafell. Ceir silindr ocsigen yn yr ystafell, ond roedd y mwgwd a'r tiwbiau wedi'u lleoli mewn swyddfa oddi ar y ward. Pe bai angen ocsigen mewn argyfwng, gallai'r ffaith nad oedd yr offer i roi ocsigen gyda'r silindr ocsigen olygu oedi sylweddol cyn bod therapi ocsigen ar gael. Nid oedd yr ystafell golchi pethau bryntion yn cael ei defnyddio ar adeg ein hymweliad oherwydd clo wedi torri. Roeddem yn falch o nodi bod system larwm galw nyrs wedi'i gosod ym mhob un o'r ystafelloedd gwely.

Ward 20 gwely yw ward Dinas, wedi'i rhannu'n rhan i ddynion (deg gwely) a'n rhan i fenywod (deg gwely). Mae swyddfa'r nyrsys/y brif swyddfa wedi'i lleoli ar ochr y ward i ddynion. Mae cegin yn cynnig mynediad at ddiodydd i'r cleifion. Roedd set deledu, seddi a gemau bwrdd yn y lolfa, a cheir mynediad at ardd ohoni hefyd. Dim ond un golau oedd yn gweithio yn yr ardd ar adeg

ein hymweliad, a oedd yn golygu ei bod wedi'i goleuo'n wael. Mae hysbysfyrddau'n darparu gwybodaeth i gleifion gan gynnwys amseroedd agor y caffi, amseroedd ymweld, gwybodaeth am eiriolwyr, a nodiadau o fforymau cleifion.

Roedd y rhan i fenywod yr un fath â'r un i ddynion, ond roedd y swyddfa nyrsys wedi cael ei throï'n ystafell gyfarfod. Mae cleifion o'r rhan i ddynion a'r rhan i fenywod yn defnyddio'r ystafell fwyta, a oedd wedi'i lleoli oddi ar y ward, ac mae gan y cleifion fynediad at ystafell sydd oddi ar y prif goridor hefyd.

Roedd yr un dodrefn a gosodiadau yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar Dinas â'r rhai ar Tegid, ac nid oedd unrhyw eitemau personol i'w gweld yn yr ystafell wely yr edrychwyd arni.

Ward ailsefydlu wyth gwely yw ward Cynnydd, sydd â digon o le ar gyfer y grŵp cleifion. Wrth fynd i mewn i'r ward, ceir man cymunedol mawr â seddi a sachau eistedd. Mae gan y cleifion fynediad at ystafell fwyta a dwy lolfa, lle ceir setiau teledu a seddi. Ceir ystafell gemau fawr â bwrdd tenis bwrdd a bwrdd pŵl; mae gan y cleifion fynediad at gampfa a chegin therapi hefyd.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y daflen wirio ar gyfer yr oergell yn y gegin therapi wedi cael ei chwblhau ar gyfer y diwrnod hwnnw, ac nid oedd eitemau yn yr oergell wedi'u dyddio i ddangos erbyn pryd yr oedd angen defnyddio'r eitem. Roedd pecyn o selsig wedi'i storio yn yr oergell a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn yn ôl y dyddiad ar y pecyn, sef 3 Gorffennaf 2015.

Roedd yr ardd yn braf ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd hyn oherwydd ymdrech y staff a'r cleifion. Roedd digon o le ar y ward, ac roedd yr addurn yn olau ac yn awyrog, mewn cyferbyniad llwyr â wardiau Tegid a Dinas.

Mae ystafelloedd Adran 136 wedi'u lleoli nesaf at yr ystafell gemau/therapi ar ward Cynnydd. Mae ystafelloedd Adran 136 yn cynnwys ei man asesu ei hun ynghyd â seddi a drws ar wahân, sy'n galluogi cleifion i ddod i mewn i'r ystafelloedd heb fynd trwy ward Cynnydd.

Argymhellion

Roedd y problemau amgylcheddol sylweddol ar ward Tegid yn dangos yn eglur nad oedd y ward yn addas at y diben ac nad yw'n gallu diwallu anghenion y grŵp cleifion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a rhoi sylw i'r pryderon a rhoi sicrwydd am y ddarpariaeth hirdymor a byrdymor.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau a nodir yng nghynllun gweithredu 2014, a'r rhai ar gyfer recriwtio staff cynnal a chadw'n benodol, yn cael eu cymryd, a sicrhau bod y gerddi'n cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu hygyrchedd i gleifion a'r budd therapiwtig mwyaf posibl.

Mae angen adolygu eitemau bwyd sy'n cael eu storio yn oergell y gegin ymarfer er mwyn sicrhau eu bod wedi'u labelu a'u dyddio'n briodol i ddangos erbyn pryd y mae'n rhaid defnyddio'r eitem o fwyd.

Diogelwch

Roedd niferoedd staffio annigonol yn amlwg ar wardiau Tegid a Dinas yn bennaf. Adolygwyd rotas staffio ar Tegid o fis Ionawr 2015, a nodwyd gennym fod nifer annigonol o staff ar sawl achlysur, ac roedd cyn lleied â phedwar aelod o staff ar ddyletswydd weithiau. Dim ond pum aelod o staff oedd ar ward Dinas ar ôl 10pm ar noson ein hymweliad. Roedd dau glaf yn cael eu harsylwi ar sail 1:1, ac roedd hynny'n gadael tri aelod o staff ar gyfer y 18 claf arall. O ystyried lefelau arsylwi eraill a'r ffaith bod ward Dinas yn ward derbyniadau aciwt, roedd yn anodd bod yn sicr bod y lefelau staffio a oedd ar gael yn briodol i sicrhau diogelwch cleifion a staff. Hefyd, nid oedd unrhyw staff ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer ystafelloedd Adran 136, a byddai staff yn cael eu cymryd o'r wardiau i sicrhau yr ymdriniwyd â'r derbyniad yn briodol, gan adael wardiau â llai o staff fyth.

Roedd yn amlwg bod pwysau sylweddol ar welyau cleifion mewnol, ac roedd y capasiti ar y wardiau'n 100% yn ystod ein hymweliad. Os oedd angen gwely cleifion mewnol yn yr ysbyty ar unigolyn felly, roedd cleifion presennol yn cael eu symud o gwmpas wardiau'n aml. Fe'n hysbyswyd gan staff am eu rhwystredigaeth gyda hyn, gan nodi y bu achos pan fu'n rhaid i glaf gysgu ar soffa gan nad oedd digon o welyau ar gael. Hefyd, pan oedd cleifion ar seibiant, roedd eu gwelyau'n cael eu defnyddio ac nid oedd gwely ar gael bob amser os oedd angen iddynt ddychwelyd. Mae hyn yn peri cryn bryder i gleifion ac yn creu anawsterau a rhwystredigaethau i'r staff. Hefyd, roedd diffyg gwelyau gofal dwys seiciatrig. Roedd claf ar ward Dinas yn cael ei nyrsio ar sail 2:1, ac roedd angen pedwar aelod o staff ar wahanol adegau. Nodwyd bod y claf angen nyrsio gofal dwys seiciatrig, ond nid oedd uned gofal dwys seiciatrig ar yr uned.

Dywedodd mwyafrif y cleifion i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Uned Ablett, ac roeddem yn falch o nodi bod ward Tegid wedi gosod system larwm galw nyrsys ym mhob ystafell wely.

Argymhellion

Mae angen adolygu niferoedd staffio ar wardiau Tegid a Dinas er mwyn sicrhau y darperir nifer ddigonol o staff.

Mae'n rhaid datblygu strategaethau i reoli gwelyau'n effeithiol.

Mae angen adolygiad o staff yn Uned Ablett er mwyn sicrhau bod staff priodol ar gael os bydd derbyniad Adran 136.

Y tîm amlddisgyblaethol

Yn gyffredinol, gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol ar waith y tîm amlddisgyblaethol, gan nodi nifer o ddisgyblaethau a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd, gan gynnwys meddygon, nyrsys, therapyddion galwedigaethol a seicolegwyr. Dywedodd y staff fod aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol, a gofynnir am safbwyntiau proffesiynol ac fe'u gwerthfawrogir.

Dywedodd y staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff ac adolygiadau achos ar gyfer eu grwpiau cleifion yn rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd boreol a throsglwyddo. Roedd rhai wardiau yn cynnal mwy o gyfarfodydd staff hefyd, a dywedodd y staff fod hyn yn welliant mawr.

Cynhelir rowndiau ward wythnosol, ond fe'n hysbyswyd gan staff nyrsio y caiff eu llwythi gwaith eu tarfu yn aml er mwyn cynorthwyo meddygon yn ystod y cyfnod hwn. Ceir tri meddyg derbyn ar ward Tegid y mae pob un ohonynt yn cynnal ei rowndiau ward ar wahanol ddiwrnodau ac amseroedd.

Dywedodd rhai gweithwyr cymorth gofal iechyd fod y meddygon yn nawddoglyd tuag atynt a bod hyn yn gwneud iddynt deimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yn braf nodi bod seicolegydd wedi'i benodi ar gyfer wardiau Tegid a Dinas, a argymhellwyd yn ystod ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014. Hefyd, cafwyd adborth cadarnhaol gan staff a chleifion ar benodiad cydgysylltydd gweithgareddau.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan yr holl gleifion i ni siarad â nhw ystafell unigol, ond roedd rhai cleifion mewn ystafell gysgu â dau wely. Dywedodd y cleifion fod staff yn eu trin gydag urddas a pharch ar y cyfan a'u bod yn cnocio ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn mynd i mewn. Fodd bynnag, dywedodd un claf y bu un achos pan na arhosodd aelod o staff am ateb i ddod i mewn, er ei fod wedi cnocio, ac nad oedd y claf yn gwisgo dillad. Dywedodd mwyafrif y cleifion

wrthym fod aelod o staff wedi eu dangos o gwmpas y ward pan gawsant eu derbyn.

Mae cyfleusterau ar gael i gleifion gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, gan gynnwys mynediad at ffôn ac ystafelloedd ymwelwyr. Nid oedd yr holl gleifion yn ymwybodol o'u nyrs benodol gan eu bod yn dweud ei bod yn newid bob dydd ac nad ydynt yn cael eu hysbysu bob amser. Ceir byrddau gwyn ar y wardiau y gellid eu defnyddio i restru'r wybodaeth hon.

Mae cyfleusterau a rennir ar gael ar gyfer cael baddon/cawod, ond bu achlysuron ar ward Dinas pan fu'n rhaid i gleifion gwrywaidd ddefnyddio cawod ar ochr y ward i fenywod oherwydd problemau cynnal a chadw. Hefyd, dywedodd y staff nad yw wardiau Dinas a Tegid yn cynnig digon o le, preifatrwydd ac urddas i'r grŵp cleifion.

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Roeddem yn falch o weld bod cydgysylltydd gweithgareddau wedi ei benodi ers ein hymweliad ym mis Mehefin 2014. Cadarnhaodd y staff fod penodi'r cydgysylltydd gweithgareddau wir wedi helpu trwy wella'r gweithgareddau cymdeithasol a hamdden i gleifion. Gwelsom ddwy sesiwn gan y cydgysylltydd gweithgareddau yn ystod ein hymweliad, gan gynnwys sesiwn 'Carers Corner Café' feunyddiol. Cynhelir y sesiwn oddi ar y wardiau ac yn yr ystafell fwyta. Mae'r sesiwn ar gyfer cleifion, ymwelwyr a staff, sy'n gallu cael diodydd, bisgedi a sgwrs. Sefydlwyd y caffi gyda help cleifion, ac mae un claf a ryddhawyd yn mynychu bob dydd Gwener i roi help llaw. Gwelsom ryngweithio da rhwng y rhai a fynychodd, ac roedd cynlluniau i ymestyn y caffi hwn ar gyfer pob amser ymweld.

Mae ward Cynnydd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a gweithgareddau i gleifion, gan gynnwys campfa, tenis bwrdd, bwrdd pŵl, beicio, pêl-droed, cerdded a garddio. Roedd gan yr holl gleifion amserlen gweithgareddau unigol, ac mae cleifion yn mynychu cyfarfod boreol bob bore i drafod pa weithgareddau maen nhw eisiau eu gwneud y diwrnod hwnnw. Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw ar ward Cynnydd fod ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ond, ar ôl 5pm, dywedodd rhai cleifion mai ychydig iawn oedd yna i'w wneud a'u bod yn teimlo wedi diflasu.

Cadarnhaodd trafodaethau gyda staff a chleifion ar draws bob ward nad oes unrhyw arweinwyr gweithgareddau ar benwythnosau, ac felly roedd llawer o gleifion yn achwyn eu bod wedi diflasu.

Mae therapydd galwedigaethol yn cynnal asesiadau cleifion sy'n cynnwys asesiad sgiliau sylfaenol. Dim ond dwy sesiwn yr wythnos yw mewnbyn yr

adran seicoleg ar ward Cynnydd, ac mae hyn yn gofyn am adolygiad i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn gwasanaethau seicoleg priodol.

Fe'n hysbyswyd gan staff y bu achlysuron pan fo seibiant Adran 17 wedi cael ei ganslo oherwydd prinder staff. Hefyd, dywedodd y staff eu bod wedi cael trafferth yn mynd â rhai cleifion i apwyntiadau gan na fyddai wedi bod yn ddiogel i staff adael rhai wardiau.

Roedd mynediad at wasanaethau deietegydd, podiatreg a ffisiotherapi o Ysbyty Glan Clwyd wedi peri problemau i staff yn Uned Ablett, wrth i rai staff gadarnhau eu bod wedi cael ymatebion cymysg i geisiadau am y gwasanaethau hyn.

Argymhellion

Mae niferoedd staffio annigonol wedi cyfrannu at ganslo seibiant Adran 17 ac apwyntiadau eraill a ohiriwyd, ac mae angen adolygu niferoedd staffio er mwyn rhoi terfyn ar yr achosion hyn o ganslo.

Mae angen adolygiad o weithgareddau ar benwythnosau a min nos er mwyn sicrhau y darperir gweithgareddau priodol i gleifion gymryd rhan ynddynt.

Mae angen datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau gwell â phodiatreg, ffisiotherapi a deieteg er mwyn sicrhau mynediad priodol i gleifion.

Mae angen adolygiad o'r mewnbwn seicoleg, yn enwedig ar ward Cynnydd, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn sesiynau addas.

Gofal iechyd cyffredinol

Nododd adolygiad o ystafell glinigol Tegid a Dinas y canlynol:

- Roedd clo wedi torri ar yr oergell feddyginiaeth a 7.3 gradd oedd y darlleniad tymheredd ar adeg ein hymweliad. Nododd adolygiad o'r daflen cofnodi'r tymheredd fod yr oergell feddyginiaeth wedi bod dros 6 gradd ers cryn amser
- Roedd hylif diazepam wedi'i storio ochr yn ochr â chynhyrchion allanol
- Roedd yr ystafell glinigol yn boeth iawn
- Roedd stoc feddyginiaeth ormodol
- Roedd gwaed wedi sychu ar y mesurydd glwcos
- Roedd cyffuriau a reolir na chynigir mwyach yn y cwpwrdd
- Nid oedd sinc yn y man rhoi cyffuriau ar ward Tegid

Hysbyswyd staff am y meysydd a nodwyd yn ystod ein sesiwn adborth ar ddiwedd yr ymweliad er mwyn sicrhau y byddent yn cymryd camau yn eu cylch.

Amlygodd trafodaethau gyda staff anghysondebau o ran y ddarpariaeth o driniaeth gartref. Mae dwy is-adran yn darparu'r gwasanaeth hwn, ond, yn un is-adran, os nad yw'r gwasanaeth yn ymwybodol o glaf â salwch gweithredol a'i fod yn hŷn na 65 oed, nid oes unrhyw dîm triniaeth gartref i weithio gyda'r unigolyn hwnnw fel nad oes rhaid ei dderbyn i'r ysbyty neu i hwyluso rhyddhad cynnar. Nid oedd y sefyllfa hon a'r amgylchiad hwn yn bodoli mewn rhannau eraill o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, ac mae angen rhoi sylw i'r anghysondebau hyn.

Roedd ystafelloedd Adran 136 wedi derbyn pedwar claf dan 18 oed rhwng Ionawr a Mehefin 2015. Roedd yn siomedig canfod nad yw'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod (CAMHS) yn cynnig cefnogaeth lawn i staff. Fe'n hysbyswyd bod cleifion dan 18 oed wedi bod yn ystafelloedd Adran 136 dros dro mewn rhai achosion, gan nad oedd gwelyau priodol ar gael, ac, yn aml, mae gwasanaeth CAMHS cyfyngedig ar ôl 5pm ar ddydd Gwener. Dim ond derbyniadau wedi'u cynllunio y mae'r uned CAMHS yn Abergele yn eu cymryd, ac mae ymgynghorwyr CAMHS yn cynnig gwasanaeth ffôn y tu allan i oriau. Hefyd, roedd ystafelloedd Adran 136 wedi'i threfnu'n unol â gofynion staffio lleiaf posibl, a byddai unrhyw dderbyniadau i'r ystafelloedd yn golygu bod staff yn cael eu tynnu oddi ar wardiau i gynorthwyo.

Argymhellion

Mae angen adolygu'r holl bethau i ni eu nodi yn ystafell glinigol ward Tegid/Dinas, gan gynnwys y clo wedi torri ar ddrws yr oergell, tymheredd yr oergell a'r ystafell, y modd o storio cyffuriau a meddyginiaethau a'r stoc, a'r diffyg sinc, ac mae angen glanhau'r mesurydd glwcos ar ôl ei ddefnyddio a'i gadw'n lân.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o driniaeth gartref i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion cleifion ac fel bod cysondeb o ran y ddarpariaeth ar draws y bwrdd iechyd.

Bwyd a maetheg

Cafwyd cwynion gan nifer sylweddol o gleifion a staff am natur hynod ailadroddus y bwyd sy'n cael ei weini. Roedd prydau bwyd ar gylch bwydlen wythnosol ar adeg ein hymweliad. Roedd hyn yn wahanol i'r prif ysbyty, a oedd ar gylch mwy.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod ganddynt ddewis o ddau bryd, ac mae'r cleifion yn gwneud y penderfyniadau hyn eu hunain ar y cyfan. Dywedodd y staff y byddent yn gwneud dewisiadau ar ran cleifion weithiau. Dywedodd un claf wrthym ei fod yn dilyn deiet llysiuol erbyn hyn ond na ofynnwyd iddo am ddewisiadau deietegol pan y'i derbyniwyd i'r ward gyntaf.

Mae gan gleifion ar ward Dinas gyfleusterau bwyta wedi'u lleoli oddi ar y ward ac nid oedd hyn yn broblem i'r rhan fwyaf o gleifion, ond roedd cyfyngiadau i'r cleifion hynny na allai neu nad oeddent yn fodlon mynd i'r fan hon.

Gwelsom amser bwyd ar ward Cynnydd yn ystod ein hymweliad. Cyrhaeddodd y bwyd ar droli a gweiniwyd y bwyd gan y staff i'r cleifion, a gariodd y pryd i'r ystafell fwyta. Gellid gwella'r profiad bwyta i gleifion gan nad oedd unrhyw lieiniau bwrdd na matiau bwrdd a dim dŵr ar y byrddau. Roedd ansawdd y bwyd a weiniwyd a welwyd gennym ni yn amrywio, ac ni ystyriwyd bod un opsiwn yn flasus.

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gallu cael diod a/neu fyrbryd y tu allan i amser prydau bwyd, a chadarnhawyd hyn gan y staff. Dywedodd y cleifion na roddir diodydd caffein iddynt tan ar ôl 6am, a chadarnhaodd y staff fod cleifion wedi'u cyfyngu i un ddiodydd caffein y diwrnod. Fe'n hysbyswyd gan gleifion y gall bwyd fod yn oer pan fydd yn cyrraedd ar y ward ac nad yw maint y dognau'n ddigon mawr weithiau.

Dywedodd staff a chleifion ar ward Cynnydd eu bod yn cael bwyd tecawê un noson yr wythnos a'u bod yn cael barbiciw a phartïon i gleifion i ddathlu eu pen-blwydd.

Argymhellion

Dylid cynnal adolygiad o'r fwydlen i nodi pam mae gan gleifion yn Uned Ablett gylch bwydlen llai na'r cleifion hynny yn Ysbyty Glan Clwyd. Dylid llunio bwydlenni sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i gleifion.

Mae angen cynnal adolygiad o amser prydau bwyd cleifion er mwyn sicrhau bod eu profiad bwyta'n cael ei wella.

Mae angen cynnal asesiad o faint y dognau a weinir i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, ac mae angen cofnodi tymheredd bwyd er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ar gyfer gweini.

Mae angen adolygu penderfyniadau mympwyol am ganiatáu un ddiodydd caffein y diwrnod i gleifion er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar anghenion a aseswyd.

Hyfforddiant

Adolygwyd saith ffeil staff ar draws tair ward, a nodwyd anghysondebau gyda'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ffeiliau. Caiff yr holl archwiliadau cyflogaeth eu cynnal gan yr adran Adnoddau Dynol ac nid staff ar y wardiau. Ceir rhestr wirio bersonol ar flaen rhai ffeiliau a oedd yn cofnodi pan fo gwybodaeth benodol wedi'i derbyn, tra nad oedd rhestr wirio mewn ffeiliau eraill, ac nid oedd un ffeil a adolygwyd yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyflogaeth o gwbl.

Nid oedd yn eglur pa systemau oedd ar waith i gynnig tystiolaeth bod cofrestriadau proffesiynol staff yn gyfredol. Roedd un ffeil a adolygwyd yn cynnwys copi o'i dystysgrif Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth â dyddiad terfyn o fis Mawrth 2014. Nid oedd copi cyfredol yn y ffeil, nac ar system electronig, a allai gynnig tystiolaeth o gofrestriad dilys, er i staff gadarnhau bod cofrestriadau'n gyfredol.

Fe'n hysbyswyd bod oediadau o ran penodi rhai staff yn dal i barhau, er i hyn gael ei godi yn ystod ein hymweliad blaenorol ym mis Mehefin 2014. Hefyd, roedd tystiolaeth bod penodi meddygon iau yn dal i fod yn broblem barhaus.

Roeddem yn falch o nodi bod y broses o gofnodi hyfforddiant staff wedi gwella a bod y system yn cynnwys colofnau ychwanegol i ddangos pan drefnwyd i aelod o staff dderbyn hyfforddiant a oedd ar fin cael ei ddarparu. Fodd bynnag, roedd problem o hyd o ran rhywfaint o hyfforddiant gorfodol. Roedd yr ystadegau a ddarparwyd yn dangos bod cydymffurfriad o 0% â hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar wardiau Tegid a Dinas o hyd. Nodwyd y ffigur hwn yn ystod ein hymweliad blaenorol yn 2014. Roedd y cynllun gweithredu o'n hymweliad yn 2014 yn dweud bod y sefydliad wedi nodi bod hyfforddiant Deddf Galluedd Meddwl yn orfodol, ond nid oedd rhaglen hyfforddi ar waith ar hyn o bryd, ac eithrio dau becyn e-ddysgu. Roedd staff yn cael eu hannog i gyflawni'r modiwl e-ddysgu yn y cyfamser. Roedd yn siomedig nad oedd unrhyw welliant wedi ei wneud ers 2014.

Roedd cydymffurfriad o 0% o ran hyfforddiant hylendid bwyd ar wardiau Cynnydd a Tegid, er bod staff yn gweini prydau ac yn cynorthwyo ar amseroedd bwyd. Roedd gan fannau eraill well canrannau cydymffurfriad na'r rhai a restrwyd, ond mae angen adolygiad o gydymffurfriad â hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol.

Mae systemau ar waith i'r staff dderbyn goruchwyliaeth a gwerthusiad blynyddol, ond nid oedd yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth yn rheolaidd. Dywedodd y staff y dylai goruchwyliaeth fod yn fisol, ond nid oedd yr holl staff

i ni siarad â nhw yn cael sesiynau rheolaidd, gan ddweud eu bod yn digwydd bob pedwar i chwe mis.

Argymhellion

Mae angen i'r holl wybodaeth cyn-cyflogi a gyflwynir i reolwyr y wardiau fod yn gyson ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol o ran ba wybodaeth sy'n ofynnol.

Mae angen cyflwyno system sy'n gallu cynnig tystiolaeth o gofrestrïadau proffesiynol cyfredol.

Mae angen cynnal adolygiad o'r broses o recriwtio a phenodi staff i nodi'r oediadau parhaus cyn penodi rhai aelodau staff.

Nid oedd yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd, ac mae'n rhaid cyflwyno systemau i wella a chofnodi hyn.

Mae angen cynnal gwerthusiad o'r ystadegau hyfforddiant gorfodol gan fod cyfraddau cydymffurfiad o 0% mewn rhai manau. Mae angen hyfforddiant priodol ar yr holl staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Llywodraethu

Roedd diffyg proses gadarn o ran archwiliad diweddar a gynhaliwyd ar ward Tegid. Methodd yr adroddiad o'r enw 'Arsylwadau o Ymweliadau Safle' â chydabod y problemau amgylcheddol sylweddol ar ward Tegid. Bydd prosesau archwilio a llywodraethu cadarn yn hanfodol fel y gall y bwrdd iechyd nodi problemau a chymryd camau priodol.

Cydnabuwyd nad oedd un unigolyn yn Uned Ablett yn gyfrifol am yr uned yn ei chyfanrwydd. Roedd tri rheolwr ardal yn eu swyddi ar adeg ein hymweliad, pob un â chyfrifoldeb am wardiau a gwasanaethau penodol, ond nid oedd unrhyw un yn gyfrifol am yr uned gyfan.

Mae angen adolygiad o'r ddarpariaeth o welyau am y rhesymau a amlygir o dan adran Diogelwch yr adroddiad hwn. Cydnabyddir o'r ymateb i'n llythyr sicrwydd ar unwaith bod nifer o brosesau wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae AGIC wedi gofyn am yr adroddiad diweddaraf ar ddeiliadaeth gwelyau a dadansoddi symudiad cleifion.

Mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer gweithredu ystafelloedd Adran 136 gan gymryd i ystyriaeth nifer y derbyniadau i'r ystafelloedd sy'n iau na 18 oed (gweler yr adran Gofal Iechyd Cyffredinol am fanylion). Mae angen gwell

cysylltiadau â CAMHS er mwyn sicrhau bod derbyniadau cleifion dan 18 mlwydd oed yn briodol.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o brosesau archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i hysbysu a llywio'r bwrdd iechyd, fel y gellir cymryd camau priodol.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bwysigrwydd ac arwyddocâd cael un person yn gyfrifol am Uned Ablett yn ei chyfanrwydd.

Mae angen cynnal adolygiad o dderbyniadau Adran 136 sy'n iau na 18 oed er mwyn sicrhau y darperir gofal a thriniaeth briodol ac y datblygir gwell cysylltiadau â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion ar draws wardiau Dinas a Cynnydd. Gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Nid oedd y llwybrau Deddf Iechyd Meddwl a adolygwyd wedi'u cwblhau'n llawn
- Roedd gwaith therapiwtig ar gyfer cleifion wedi'i gyfyngu o dro i dro pan oedd achosion o brinder staff a salwch
- Dim ond hyfforddiant gorfodol y mae'r matrices hyfforddiant yn ei gynnig, ac mae angen datblygu hyfforddiant ar ymyriadau therapiwtig brys
- Roedd hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl yn cael ei ddarparu, a dylid cadw cofnodion o bresenoldeb ynghyd â data hyfforddiant arall
- Roedd angen i'r holl staff dderbyn hyfforddiant Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar frys
- Nid oedd nifer ddigonol o feddygon â chymeradwyaeth Adran 12 ar gael i'r uned

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod llwybrau Deddf Iechyd Meddwl yn cael eu cwblhau'n llawn, bod staff yn derbyn hyfforddiant Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a bod meddygon â chymeradwyaeth Adran 12 yn cael eu penodi.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Adolygwyd pum set o ddogfennau cynllunio gofal ar ward Tegid, a nodwyd y canlynol gennym:

- Roedd rhai o'r cynlluniau gofal i ni eu hadolygu'n sylfaenol, roedd diffyg dyfnder a manylion ynddynt, ac nid oeddent yn hysbysu nac yn datblygu gofal
- Nid oedd gan rhai cleifion gynlluniau gofal yn amlinellu eu hanghenion neu sut y mae'r rhain yn cael eu rheoli. Er enghraifft mae'r cleifion hynny a oedd wedi cael eu hasesu ar dderbyn i fod ag anghenion penodol fel heintiau'r llwybr wrinol, diabetes neu wlsrau coes, nad oedd gan gynlluniau gofal i ddisgrifio eu gofal angenrheidiol yn gywir. Dylai'r cynllun gofal hefyd yn nodi tystiolaeth o gynnwys cleifion.
- Nid oedd asesiadau cwmpo wedi eu cwblhau bob amser
- Roedd dryswch am statws claf o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd roi sylw i faterion yn ymwneud â'r ffaith bod diffyg dyfnder a manylder i gynlluniau gofal, asesiadau a statws Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; cynnwys cleifion yn y gwaith o gynllunio gofal; a rheoli heintiau ar y llwybr wrinol, cwmpau, clwyfau, a phroffion diabetes/glwcos gwaed.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Glan Clwyd

Ward/Adran: Uned Ablett

Dyddiad yr arolygiad: 6, 7 a 8 Gorffennaf 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	<p>Roedd y problemau amgylcheddol sylweddol ar ward Tegid yn dangos yn eglur nad oedd y ward yn addas at y diben ac nad yw'n gallu diwallu anghenion y grŵp cleifion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a rhoi sylw i'r pryderon a rhoi sicrwydd am y ddarpariaeth hirdymor a byrdymor.</p> <p>(Roedd hwn yn gam gweithredu a nodwyd yn y llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd.)</p>	<p>Caiff camau gweithredu yn ymwneud â'r amgylchedd iechyd meddwl ac anableddau dysgu eu rheoli fel rhan o'r Grŵp Gwella Iechyd Meddwl. Mae'r Grŵp Amgylchedd yn arwain y camau gweithredu blaenoriaeth sydd eu hangen yn y cynllun 100 diwrnod.</p> <p>Cynhelir adolygiad o'r ystâd er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio gofod a lleoliadau. Mae gan yr is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu faterion amgylcheddol ar ei chofrestr risgiau. Gwnaeth yr Athro Bob Woods (Athro Seicoleg Glinigol Pobl Hŷn Prifysgol Bangor a Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol er Anrhydedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) gynnal</p>	Cyfarwyddwr dros dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	31/12/2015

		ymweliad er mwyn adolygu amgylchedd y ward. Bydd Uwch-dîm Rheoli Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn derbyn yr adroddiad ac yn gweithredu arno.		
11	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau a nodir yng nghynllun gweithredu 2014, a'r rhai ar gyfer recriwtio staff cynnal a chadw'n benodol, yn cael eu cymryd, a sicrhau bod y gerddi'n cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu hygyrchedd i gleifion a'r budd therapiwtig mwyaf posibl.	<p>Caiff camau gweithredu yn ymwneud â'r amgylchedd iechyd meddwl ac anableddau dysgu eu rheoli fel rhan o'r Grŵp Gwella Iechyd Meddwl. Mae'r Grŵp Amgylchedd yn arwain y camau gweithredu blaenoriaeth sydd eu hangen yn y cynllun 100 diwrnod.</p> <p>Bydd yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn tynnu sylw'r bwrdd gweithredol at y risgiau a nodwyd, a gofynnir iddynt ystyried defnyddio manau clinigol eraill sydd ar gael i'r sefydliad.</p> <p>Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn gweithio ar y cyd â'r is-adran Strategaeth a Chynllunio a'r is-adran Ystadau a Chyfleusterau i adolygu'r trefniadau dros dro y gellid eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa yn y cyfleuster hwn yn y tymor byr a'r tymor hwy.</p>	Cyfarwyddwr Ystadau / Cyfarwyddwr dros dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	31/12/15
11	Mae angen adolygu eitemau bwyd sy'n cael eu storio yn oergell y gegin ymarfer er mwyn sicrhau eu bod wedi'u labelu a'u dyddio'n briodol i	O fis Medi 2015 ymlaen, bydd gofyn i reolwyr wardiau gael prosesau archwilio ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â safonau hylendid bwyd. Mae	Metronau – Oedolion / Iechyd Meddwl Pobl Hŷn /	01/09/2015

	ddangos erbyn pryd y mae'n rhaid defnyddio'r eitem o fwyd.	hapwiriadau'n rhan o ymweliadau metronau â'r wardiau.	Adsefydlu	
12	<p>Mae angen adolygu niferoedd staffio ar wardiau Tegid a Dinas er mwyn sicrhau y darperir nifer ddigonol o staff.</p> <p>(Roedd hwn yn gam gweithredu a nodwyd yn y llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd.)</p>	<p>Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu wedi cynnal adolygiad o sefydliad y ward ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn seiliedig ar y model Hurst, a bydd yn galluogi'r bwrdd iechyd i feincnodi yn erbyn yr ymddiriedolaethau sy'n perfformio orau yn Lloegr o ran sefydliadau staff o gymharu â lefelau aciwtedd a dibyniaeth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac yn cael ei gostio ar hyn o bryd. Caiff hyn ei gyflwyno i'r Grŵp Gwella Iechyd Meddwl a'r tîm gweithredol erbyn 11 Medi 2015.</p> <p>Mae trefniadau gweithredol ffurfiol bellach ar waith er mwyn galluogi rheolwyr wardiau i ddefnyddio eu barn broffesiynol (gan ddangos tystiolaeth aciwtedd hefyd) i uwchgyfeirio unrhyw bryderon o ran lefelau staffio/cymysgedd sgiliau i reolwyr ardal/metronau. Mae rheolwyr wardiau wedi eu grymuso i chwilio am staff ychwanegol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff ar eu hunedau. Derbynnir y bydd y lefelau hyn yn newid yn ôl dibyniaeth/aciwtedd y cleifion.</p> <p>Mae is-adran Iechyd Meddwl ac</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol yr Is- adran/Pennaeth Nyrsio dros dro</p> <p>Rheolwr Cyffredinol yr Is- adran/Pennaeth Nyrsio dros dro</p>	<p>31/10/2015</p> <p>Ar waith ers mis Gorffennaf ac yn cael ei fonitro</p> <p>Ar waith ers diwedd mis</p>

		Anableddau Dysgu wedi cytuno ar fetrig sifft fesul sifft a roddwyd ar waith ym mhob maes, ac mae hyn yn cynnwys staffio a bydd yn debygol o ddarparu sicrwydd.	Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran/Pennaeth Nyrsio dros dro	Gorffennaf ac yn cael ei fonitro
12	<p>Mae'n rhaid datblygu strategaethau i reoli gwelyau'n effeithiol.</p> <p>(Roedd hwn yn gam gweithredu a nodwyd yn y llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd.)</p>	<p>Fel rhan o Wella Iechyd Meddwl (cynllun 100 diwrnod), bydd adolygiad o gapasiti ar gyfer cleifion mewnol yn cael ei gomisiynu.</p> <p>Bydd adroddiad misol i'r Uwch Dîm Rheoli yn cael ei gyflwyno'n fisol, a bydd hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r gyfradd llenwi a symudiadau cleifion. Trefnwyd cyfarfodydd llifau cleifion newydd yn seiliedig ar leoliadau, er mwyn monitro a gwella'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r llif drwy'r bwrdd iechyd. Mae hefyd grŵp gorchwyl a gorffen "derbyniad ystyrion", a grŵp cyddibyniaeth gorchwyl a gorffen a fydd yn cefnogi'r gwelliannau angenrheidiol a roddir ar waith fel rhan o'r cynllun 100 diwrnod.</p>	Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	31/10/15
12	Mae angen adolygiad o staff yn Uned Ablett er mwyn sicrhau bod staff priodol ar gael os bydd derbyniad Adran 136.	Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cynnal adolygiad o sefydliad y ward ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn seiliedig ar y model Hurst, a bydd yn galluogi'r bwrdd iechyd i feincnodi yn erbyn yr ymddiriedolaethau sy'n perfformio orau yn Lloegr o ran	Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	11/09/2015

		<p>sefydliadau staff o gymharu â lefelau aciwtedd a dibyniaeth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac yn cael ei gostio ar hyn o bryd. Caiff hyn ei gyflwyno i'r Grŵp Gwella Iechyd Meddwl a'r tîm gweithredol erbyn 11 Medi 2015.</p> <p>Caiff y gofynion staffio ar gyfer gofynion 136 eu monitro'n ffurfiol drwy drefniadau llywodraethu'r is-adran.</p>	Rheolwr Cyffredinol yr Is- adran	Adolygiad misol
15	Mae niferoedd staffio annigonol wedi cyfrannu at ganslo seibiant Adran 17 ac apwyntiadau eraill a ohiriwyd, ac mae angen adolygu niferoedd staffio er mwyn rhoi terfyn ar yr achosion hyn o ganslo.	<p>Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cynnal adolygiad o sefydliad y ward ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn seiliedig ar y model Hurst, a bydd yn galluogi'r bwrdd iechyd i feincnodi yn erbyn yr ymddiriedolaethau sy'n perfformio orau yn Lloegr o ran sefydliadau staff o gymharu â lefelau aciwtedd a dibyniaeth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac yn cael ei gostio. Caiff hyn ei gyflwyno i'r Grŵp Gwella Iechyd Meddwl a'r tîm gweithredol erbyn 11 Medi 2015.</p> <p>Bydd effaith y staffio i gefnogi absenoldebau a phenodiadau Adran 17 yn cael ei monitro drwy ddangosyddion ansawdd y cytunir arnynt o fewn</p>	Rheolwr Cyffredinol yr Is- adran	11/09/2015

		<p>trefniadau llywodraethu'r is-adran.</p> <p>Mae rheolwyr wardiau wedi eu grymuso i chwilio am staff ychwanegol lle bo angen, ac i uwchgyfeirio pryderon i reolwyr ardal/metronau er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.</p> <p>Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cytuno ar fetrig sifftiau fesul sifft a roddwyd ar waith ym mhob maes ar 20 Gorffennaf 2015.</p>		
15	Mae angen adolygiad o weithgareddau ar benwythnosau a min nos er mwyn sicrhau y darperir gweithgareddau priodol i gleifion gymryd rhan ynddynt.	Ariannwyd cydgysylltwyr gweithgareddau i gynorthwyo wardiau. Bydd angen ystyried swyddi ychwanegol er mwyn galluogi cyflenwi saith diwrnod.	Rheolwyr Ardal – Adsefydlu, Oedolion ac Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31/10/2015
15	Mae angen datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau gwell â phodiatreg, ffisiotherapi a deieteteg er mwyn sicrhau mynediad priodol i gleifion.	Fel rhan o'r cynllun 100 diwrnod, mae grŵp gorchwyl a gorffen cyd-ddibyniaeth yn gweithio i sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at y ddarpariaeth o wasanaethau therapi.	Cyfarwyddwr dros dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	31/10/2015
15	Mae angen adolygiad o'r mewnbwn seicoleg, yn enwedig ar ward Cynnydd, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn sesiynau addas.	Mae seicolegydd wedi'i benodi ar gyfer yr uned, a dechreuodd yntau weithio ym mis Awst 2015. Mae Pennaeth Seicoleg wedi cynnal adolygiad o wasanaethau seicoleg, a chyflwynwyd cynnig ar gyfer modelau cyflenwi newydd i Lywodraeth Cymru, ac mae'n aros iddynt ei gymeradwyo.	Pennaeth Seicoleg	31/10/2015
16	Mae angen adolygu'r holl bethau i ni eu nodi yn ystafell glinigol ward	Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r amryw bryderon a nodwyd, ac i sicrhau	Metronau –	

	Tegid/Dinas, gan gynnwys y clo wedi torri ar ddrws yr oergell, tymheredd yr oergell a'r ystafell, y modd o storio cyffuriau a meddyginiaethau a'r stoc, a'r diffyg sinc, ac mae angen glanhau'r mesurydd glwcos ar ôl ei ddefnyddio a'i gadw'n lân.	bod gwaith priodol gan y rheolwyr ardal/yr arweinwyr ansawdd a diogelwch, a'r grŵp ystadau o ran prynu cyfarpar newydd a chynnal archwiliadau dyddiol. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen 100 diwrnod yn monitro'r gwaith hwn yn erbyn rhaglen waith blaenoriaeth.	Oedolion ac Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	30/09/2015
16	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o driniaeth gartref i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion cleifion ac fel bod cysondeb o ran y ddarpariaeth ar draws y bwrdd iechyd.	Mae strategaeth iechyd meddwl yn cael ei datblygu i sicrhau bod gwasanaeth iechyd meddwl cydlynol a phriodol ar gael ledled gogledd Cymru.	Cyfarwyddwr dros dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	31/12/2015
17	Dylid cynnal adolygiad o'r fwydlen i nodi pam mae gan gleifion yn Uned Ablett gylch bwydlen llai na'r cleifion hynny yn Ysbyty Glan Clwyd. Dylid llunio bwydlenni sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i gleifion.	Bydd grŵp maethol a sefydlwyd yn yr is-adran yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r holl faterion a grybwyllwyd o ran maetheg a hydradu, gan gynnwys dewis o'r fwydlen.	Metronau – Oedolion / Iechyd Meddwl Pobl Hŷn / Adsefydlu	31/10/2015
17	Mae angen cynnal adolygiad o amser prydau bwyd cleifion er mwyn sicrhau bod eu profiad bwyta'n cael ei wella.	Bydd grŵp maethol a sefydlwyd yn yr is-adran yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r holl faterion a grybwyllwyd o ran maetheg a hydradu, gan gynnwys dewis o'r fwydlen.	Metronau – Oedolion / Iechyd Meddwl Pobl Hŷn / Adsefydlu	31/10/2015
17	Mae angen cynnal asesiad o faint y dognau a weinir i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, ac mae angen cofnodi tymheredd bwyd er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ar gyfer	Bydd grŵp maethol a sefydlwyd yn yr is-adran yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r holl faterion a grybwyllwyd o ran maetheg a hydradu, gan gynnwys dewis o'r fwydlen.	Metronau – Oedolion / Iechyd Meddwl Pobl Hŷn / Adsefydlu	31/10/2015

	gweini.			
17	Mae angen adolygu penderfyniadau mympwyol am ganiatáu un ddioid caffein y diwrnod i gleifion er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar anghenion a aseswyd.	Bydd penderfyniadau ynglŷn â bwyd a diodydd yn seiliedig ar anghenion maethol ac asesiadau risg priodol.	Metron adsefydlu	31/08/2015
18	Mae angen i'r holl wybodaeth cyn-cyflogi a gyflwynir i reolwyr y wardiau fod yn gyson ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol o ran ba wybodaeth sy'n ofynnol.	Rhodddwyd rhestr wirio i reolwyr wardiau, a bydd hon yn cael ei chynnwys mewn ffeiliau sy'n dangos manylion yr holl ddogfennau priodol. Cynhelir gwiriadau fel rhan o'r ymweliadau adolygu rheolaidd.	Rheolwr Busnes / Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	30/09/2015
19	Mae angen cyflwyno system sy'n gallu cynnig tystiolaeth o gofrestriadau proffesiynol cyfredol.	Mae system ar waith. Anfonwyd nodiadau atgoffa i'r holl wardiau a gwasanaethau ynglŷn â sut i weithredu'r system yn gywir, er mwyn sicrhau cysondeb ac i sicrhau ei fod yn hawdd cyrchu'r ffeiliau.	Rheolwr Busnes / Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	30/09/2015
19	Mae angen cynnal adolygiad o'r broses o recriwtio a phenodi staff i nodi'r oediadau parhaus cyn penodi rhai aelodau staff.	Cyflwynir adroddiad misol i reolwyr ardal/gwasanaethau i nodi'r problemau sy'n gysylltiedig ag oedi o ran recriwtio. Mae hyn wedi'i gyflwyno o fis Gorffennaf 2015. Mae'r metrig sifft fesul sifft yn ei wneud yn bosibl uwchgyfeirio os yw oedi'n effeithio ar y ddarpariaeth ofal.	Rheolwr Busnes / Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	Cwblhawyd 30/7/15
19	Nid oedd yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd, ac mae'n rhaid cyflwyno systemau i wella a chofnodi hyn.	Mae'r polisi goruchwyllo wedi'i adolygu a'i ddiweddarau. Mae monitro'r trefniadau ar gyfer roi'r broses ar waith yn rhan o'r polisi diwygiedig.	Pennaeth Llywodraethu dros dro yr Is-adran	Cwblhawyd 30/10/2015

19	<p>Mae angen cynnal gwerthusiad o'r ystadegau hyfforddiant gorfodol gan fod cyfraddau cydymffurfiad o 0% mewn rhai manau. Mae angen hyfforddiant priodol ar yr holl staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.</p> <p>(Roedd hwn yn gam gweithredu a nodwyd yn y llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd.)</p>	<p>Cyflwynir adroddiad misol i reolwyr ardal/gwasanaethau i nodi'r problemau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae hyn wedi'i gyflwyno o fis Gorffennaf 2015. Hysbyswyd rheolwyr ardal a rheolwyr gwasanaethau y dylai'r holl staff gael eu cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant sy'n weddill erbyn diwedd mis Hydref 2015.</p>	<p>Rheolwr Busnes / Rheolwr Cyffredinol yr Is- adran</p>	30/10/2015
19	<p>Mae angen cynnal adolygiad o'r prosesau archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i hysbysu a llywio'r bwrdd iechyd, fel y gellir cymryd camau priodol.</p> <p>(Roedd hwn yn gam gweithredu a nodwyd yn y llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd.)</p>	<p>Cafodd y broses sicrwydd ansawdd ei datblygu a'i phrofi ym mis Mehefin 2015, ac mae wedi'i mireinio cyn iddi gael ei chyflwyno ddiwedd mis Gorffennaf 2015. Datblygwyd y dull ochr yn ochr â'r staff, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses hon, a bydd yn cael ei werthuso'n ffurfiol ar ôl dau fis o'i ddefnyddio. Bydd y broses hon yn gyfle i'r staff a'r cleifion ar y wardiau i siarad ag uwch-reolwr ac arweinwyr cymorth eraill yn yr is-adran.</p> <p>Mae hefyd yn rhoi cyfle i dynnu sylw at unrhyw welliannau sydd eu hangen neu a wnaed cyn adroddiadau ffurfiol ar drefniadau llywodraethu'r is-adran ar gyfer sicrwydd.</p>	<p>Pennaeth Llywodraethu dros dro yr Is-adran</p>	30/10/2015
19	<p>Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bwysigrwydd ac arwyddocâd cael un person yn gyfrifol am Uned Ablett yn ei chyfanrwydd.</p>	<p>Mae cynigion am strwythur is-adrannol diwygiedig yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.</p>	<p>Cyfarwyddwr dros dro Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu</p>	31/12/15
19	<p>Mae angen cynnal adolygiad o</p>	<p>Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen cyd-</p>		31/12/15

	<p>dderbyniadau Adran 136 sy'n iau na 18 oed er mwyn sicrhau y darperir gofal a thriniaeth briodol ac y datblygir gwell cysylltiadau â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).</p>	<p>ddibyniaeth yn mynd i'r afael â materion o'r fath, ac mae sgysiau bellach rhwng y ddwy is-adran er mwyn sicrhau bod y broses bontio'n llyfn.</p>	<p>Cyfarwyddwr Interim Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu / Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran</p>	
20	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod llwybrau Deddf Iechyd Meddwl yn cael eu cwblhau'n llawn, bod staff yn derbyn hyfforddiant Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a bod meddygon â chymeradwyaeth Adran 12 yn cael eu penodi.</p>	<p>Rhoddir hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a hyfforddiant y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o hyfforddiant gorfodol yr is-adran. Mae'r holl dimau'n cwblhau cynlluniau gweithredu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, er mwyn sicrhau bod yr is-adran yn gallu dangos cydymffurfiaeth.</p>	<p>Pennaeth nyrsio dros dro</p>	31/10/2015
21	<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi sylw i faterion yn ymwneud â'r ffaith bod diffyg dyfnder a manylder i gynlluniau gofal, asesiadau, a statws Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; cynnwys cleifion yn y gwaith o gynllunio gofal; a rheoli heintiau ar y llwybr wrinol, cwmpau, clwyfau, a phrofion diabetes/glwcos gwaed.</p>	<p>Caiff y cynlluniau ansawdd gofal eu hadolygu gan oruchwylwyr fel rhan o'r broses goruchwyllo, a chaiff canlyniadau'r adolygiadau hynny eu cynnwys yn y gwaith monitro sicrwydd ansawdd. Mae rheolwyr wardiau a metronau'n gyfrifol am adolygu a goruchwyllo manylion ac ansawdd y gwaith cynllunio gofal, ac mae'r is-adran yn rhoi strwythurau llywodraethu ar waith i sicrhau bod yr holl safonau'n cael eu monitro'n agos.</p> <p>Caiff canllawiau arferion gorau eu</p>	<p>Pennaeth nyrsio dros dro</p> <p>Pennaeth nyrsio dros dro</p>	31/10/2015 31/10/2015

		<p>rhannu â'r holl dimau fel rhan o'r broses o gynllunio gofal a thriniaeth. Mae angen gweithredu proses weithredol ar draws yr is-adrannau er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu gwahodd i'r adolygiadau, a chaiff yr adolygiad cynllun gofal a thriniaeth ei gwblhau i ddangos hyn.</p> <p>Caiff y gofalwyr eu cynnwys yn yr archwiliad MHM.</p>		
Cam gweithredu brys	<p>Cafodd sawl set o ddogfennau eu harchwilio ar ward Tegid, a nodwyd rhai materion sylweddol yn ymwneud â gofal a thriniaeth claf. Ni chynhaliwyd yr asesiad risgiau cwmpo, er bod gan y claf hanes o gwmpo ac o fod yn rhannol ddall.</p>	<p>Cafodd y claf dan sylw ei adolygu'r noswaith honno, a chymerwyd camau priodol i fynd i'r afael â'r problemau penodol. Ers hynny, mae'r cynllun gofal a thriniaeth wedi'i adolygu, ac mae'r holl asesiadau a chynlluniau triniaeth ar waith ac yn briodol ar gyfer anghenion y claf.</p> <p>Mae'r fetron wedi archwilio'r holl gynlluniau gofal er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion y cleifion sydd ar ward Tegid ar hyn o bryd.</p> <p>Sefydlodd y grŵp gwybodaeth iechyd meddwl grŵp gorchwyl a gorffen rhai misoedd yn ôl er mwyn datblygu proses sicrwydd ansawdd gadarn ar gyfer wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol (gall cylch gorchwyl a chanlyniadau ddangos tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed). Y canlyniad hyd yn hyn yw bod yr uwch dîm rheoli iechyd meddwl wedi</p>	<p>Rheolwr Ardal dros dro / Dirprwy Reolwr Ward dros dro</p> <p>Pennaeth Nyrsio dros dro / Metron dros dro</p> <p>Pennaeth nyrsio dros dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd 20 Gorffennaf 2015</p> <p>30 Gorffennaf 2015</p>

		<p>peilota proses sicrwydd ansawdd ar bum ward ym mis Mehefin cyn i broses fisol gael ei chyflwyno ar draws holl wardiau cleifion mewnol erbyn diwedd mis Gorffennaf.</p> <p>Mae'r staff wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dull, ac maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r broses newydd. Bydd y broses sicrwydd ansawdd yn cynnwys asesiadau cwmpo a chynllunio gofal, yn ogystal â hanfodion gofal eraill ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.</p> <p>Mae cynlluniau gofal a thriniaeth bellach wedi eu cynnwys yn yr archwiliadau ansawdd misol, a bydd proses adolygu parhaus i sicrhau bod ansawdd uchel yn cael ei gynnal. Bydd adroddiad canlyniadau cyntaf y broses hon yn cael ei ystyried gan yr is-adran erbyn diwedd mis Awst.</p>	<p>Pennaeth nyrsio dros dro</p>	<p>31 Awst 2015</p>
--	--	--	---------------------------------	---------------------